

Question	Answer	Cwestiwn	Ateb
When will the qualification documents be published for the qualifications	The Foundation in Construction and Building Services Engineering qualification documents are live in draft on the Skills for Wales website. The Progression and Apprenticeships documentation will be submitted to Qualifications Wales in December after which we will receive feedback and have them translated to be published in early 2021.	Pryd fydd dogfennau 'r cymhwyster yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y cymwysterau?	Mae dogfennau cymwysterau'r Sefydliad Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu ar gael ar ffurf drafft ar wefan Sgiliau i Gymru. Bydd y dogfennau Cynnydd a Phrentisiaethau yn cael eu cyflwyno i Cymwysterau Cymru ym mis Rhagfyr, ac ar ôl hynny byddwn yn cael adborth ac yn eu cyfieithu er mwyn eu cyhoeddi ddechrau 2021.
What Level 3 provision will be available to learners after they take the Progression qualification if they are unable to secure an apprenticeship	Qualifications Wales is aware of the concern regarding those individuals who are unsuccessful in accessing an apprenticeship. They are finalising an approach and transitional arrangements for learners in 2021 and considering the approach for the medium to long term through discussion with the BACH Network, City & Guilds and EAL.	Pa ddarpariaeth Lefel 3 fydd ar gael i ddysgwyr ar ôl iddynt ddilyn y cymhwyster Cynnydd os nad ydynt yn gallu cael prentisiaeth?	Mae Cymwysterau Cymru yn ymwybodol o'r pryder ynghylch yr unigolion hynny nad ydynt yn llwyddo i gael prentisiaeth. Maent wrthi'n cwblhau dull gweithredu a threfniadau pontio ar gyfer dysgwyr yn 2021 ac yn ystyried y dull gweithredu ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir drwy drafod â Rhwydwaith BACH, City & Guilds ac EAL.
Will other current Level 3 qualifications have recognised prior learning to gain access to the new Level 3 apprenticeship?	QiW are working through to provide the guidance which we should have by early 2021.	A fydd cymwysterau Lefel 3 cyfredol eraill wedi cydnabod dysgu blaenorol er mwyn cael mynediad at y brentisiaeth Lefel 3 newydd?	Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio i ddarparu'r canllawiau y dylem eu cael yn gynnar yn 2021.

<p>What funded Level 1 qualifications will remain available?</p>	<p>Qualifications Wales will continue to designate for funding Level 1 qualifications which are considered a broad introduction to Construction and/or Building Services Engineering such as the Level 1 Construction Skills qualifications. Any Awarding Body is eligible to submit a Level 1 qualification for designation.</p>	<p>Pa gymwysterau Lefel 1 a ariennir fydd ar gael o hyd?</p>	<p>Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i ddynodi ar gyfer cyllid ar gyfer cymwysterau Lefel 1 sy'n cael eu hystyried yn gyflwyniad cyffredinol i Adeiladu a/neu Beirianeg Gwasanaethau Adeiladu fel cymwysterau Sgiliau Adeiladu Lefel 1. Mae unrhyw Gorff Dyfarnu yn gymwys i gyflwyno cymhwyster Lefel 1 i'w ddynodi.</p>
<p>How can the removal of electrical science/principles from the Level 2 Progression qualification on the Electrotechnical route be justified?</p>	<p>The Level 2 Progression qualifications are not competence based qualifications and an individual does not need to complete a Progression qualification as part of the journey to occupational competence. For an individual to be considered occupationally competent they would need to complete the appropriate framework which will include the Level 3 Building Services Engineering - Electrotechnical qualification. The Level 3 qualification will require a learner/apprentice to cover all mandatory occupational standards and content. It is for this reason that the Progression qualifications only need to cover aspects of the knowledge and skills an individual will need to be competent and so consideration needs to be given to which content and skills is most appropriate to include in the qualification to ensure that it is a manageable and engaging one year programme of learning/qualification.</p>	<p>Sut gellir cyfiawnhau dileu gwyddoniaeth/egwyddorion trydanol o'r cymhwyster Cynnydd Lefel 2 ar y llwybr Electrodechnegol?</p>	<p>Nid yw'r cymwysterau Cynnydd Lefel 2 yn gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd ac nid oes angen i unigolyn gwblhau cymhwyster Cynnydd fel rhan o'r daith i gymhwysedd galwedigaethol. Er mwyn i unigolyn gael ei ystyried yn alwedigaethol gymwys, byddai angen iddo gwblhau'r fframwaith priodol a fydd yn cynnwys cymhwyster Lefel 3 Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu - Electrotechnegol. Bydd y cymhwyster Lefel 3 yn gofyn bod dysgwr/prentis yn ymdrin â'r holl gynnwys a safonau galwedigaethol gorfodol. Am y rheswm hwn, dim ond agweddau ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolyn i fod yn gymwys ac felly mae angen ystyried pa gynnwys a sgiliau sydd fwyaf priodol i'w cynnwys yn y cymhwyster er mwyn sicrhau rhaglen ddysgu/cymhwyster blwyddyn difyr y gellir ei rheoli.</p>

What is the final date that we can register students on the current Electrotechnical 2365/6724 quals so that we can continue to get funding from welsh government?	City & Guilds and EAL are working with Qualifications Wales to understand the potential courses available for 2021. Currently only new courses will be funded but entry and progression points are being considered.	Beth yw'r dyddiad olaf y gallwn gofrestru myfyrwyr ar y cymwysterau Electrodechnegol presennol 2365/6724 er mwyn i ni allu parhau i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru?	Mae City & Guilds ac EAL yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i ddeall y cyrsiau posibl sydd ar gael ar gyfer 2021. Ar hyn o bryd, dim ond cyrsiau newydd fydd yn cael eu hariannu ond mae pwyntiau mynediad a chynnydd yn cael eu hystyried.
For the Foundation qualification, can you mix the building services trade with a construction trade?	There are 6 common units and then 2 selected trade areas. There may be options for centres to run the common units to learners in the same classroom	Ar gyfer y cymhwyster Sylfaen, allwch chi gymysgu'r grefft gwasanaethau adeiladu â chrefft adeiladu?	Mae 6 uned gyffredin ac yna 2 faes crefft dethol. Efallai y bydd opsiynau i ganolfannau redeg yr unedau cyffredin i ddysgwyr yn yr un ystafell ddosbarth
What is the best pathway from September 2021 for a Level 1 learner on a CITB apprenticeship?	QiW are working closely with stakeholders and we should receive confirmation in the coming weeks.	Beth yw'r llwybr gorau o fis Medi 2021 ar gyfer dysgwr Lefel 1 ar brentisiaeth CITB?	Mae Cymwysterau Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a dylem gael cadarnhad o'r sefyllfa yn ystod yr wythnosau nesaf.
On the Progression qualification are the bay sizes fixed sizes or are they scalable?	Progression project are still under development and will be in a position by mid January to provide an update.	Ar y cymhwyster Cynnydd, a yw maint y bae yn sefydlog neu a oes modd eu hehangu?	Mae'r prosiect cynnydd yn dal i gael ei ddatblygu a bydd mewn sefyllfa erbyn canol mis Ionawr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.
Where do the negotiations for funding take place now they are not lead by BACH	The negotiations over funding have moved from BACH to the Curriculum and Quality Group, which is made up of representatives from the network of Vice/Deputy Principals.	Ble mae'r trafodaethau am gyllid yn digwydd gan nad ydyn nhw nawr yn cael eu harwain gan BACH	Mae'r trafodaethau ynghylch cyllid wedi symud o BACH i'r Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r rhwydwaith o Is-Benaethiaid/Dirprwy Benaethiaid.
Which Awarding Body will be responsible for which qualification?	City & Guilds will be responsible for the Foundation qualification. City & Guilds will also be responsible for the Progression and Level 3 Apprenticeship qualifications for the Construction trades. EAL will be responsible for the Progression and Level 3 Apprenticeship qualification for the Building Services Engineering trades.	Pa Gorff Dyfarnu fydd yn gyfrifol am ba gymhwyster?	City & Guilds fydd yn gyfrifol am y cymhwyster Sylfaen. Hefyd, bydd City & Guilds yn gyfrifol am y cymwysterau Cynnydd a Phrentisiaethau Lefel 3 ar gyfer y crefftau Adeiladu. Bydd EAL yn gyfrifol am y cymhwyster Cynnydd a Phrentisiaeth Lefel 3 ar gyfer y crefftau Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu.

<p>When will the approval application documentation shown in todays webinar be made available</p>	<p>Approval application forms and guidance documents will be added to the Skills For Wales website in the New Year. These will be in Welsh and English and should be submitted to skillsforwales.quality@cityandguilds.com on completion</p>	<p>Pryd fydd y dogfennau cais cymeradwyo a ddangosir yng ngweminar heddiw ar gael?</p>	<p>Bydd ffurflenni cais cymeradwyo a dogfennau cyfarwyddyd yn cael eu hychwanegu at wefan Sgiliau i Gymru yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y rhain ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a dylid eu cyflwyno i skillsforwales.quality@cityandguilds.com ar ôl eu cwblhau</p>
<p>Should apprentices be employed prior to agreeing the training plan and requirements with them?</p>	<p>Requirements of frameworks and funding will probably insist on this as part of recruitment onto an apprenticeship</p>	<p>A ddylid cyflogi prentisiaid cyn cytuno ar y cynllun hyfforddi a'r gofynion gyda nhw?</p>	<p>Mae'n debyg y bydd gofynion fframweithiau a chyllid yn mynnu hyn fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer prentisiaeth</p>
<p>Which employers have you been engaging with across Wales and does this include small employers?</p>	<p>We have and are still engaging with employers. Some of these are engaged with directly, and some are engaged through networks that have kindly been made available to us via organisations such as FMB/NFB/FSB/CITB. We send over 160 emails per month to keep employers up to date. We currently hold two employer focus group meetings every 6 weeks and they include Micro/SME and large employers.</p>	<p>Pa gyflogwyr ydych chi wedi bod yn ymgysylltu â nhw ledled Cymru ac ydy hyn yn cynnwys cyflogwyr bach?</p>	<p>Rydyn ni wedi ymgysylltu â chyflogwyr ac rydyn ni'n dal i ymgysylltu â nhw. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw, ac mae rhai'n ymwneud â rhwydweithiau sydd ar gael yn garedig i ni drwy sefydliadau fel FMB/NFB/FSB/CITB. Rydyn ni'n anfon dros 160 o negeseuon e-bost bob mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflogwyr. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal dau gyfarfod grŵp ffocws i gyflogwyr bob 6 wythnos ac maent yn cynnwys cyflogwyr busnesau micro/bach a chanolig yn ogystal â chyflogwyr mawr.</p>

<p>How will we engage employers in webinars and meetings with training providers? Engagement events with employers are always poorly attended. Employers say they don't have time!</p>	<p>We understand that engagement with employers can be challenging, centres have their own methods of engagement and recruit apprentices currently and these methods can continue. Careers Wales manage a list of employers who are interested in engaging with schools and colleges to develop exciting curriculum enhancing programmes for learners. Their Education Business Exchange is designed to be used by teachers and careers advisers to select employers who can support the curriculum through a variety of activities. Contact your local Careers Wales co-ordinator to discuss what they can do for you</p>	<p>Sut byddwn yn cynnwys cyflogwyr mewn gweminarau a chyfarfodydd gyda darparwyr hyfforddiant? Nid oes llawer yn dod i ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr. Mae cyflogwyr yn dweud nad oes ganddynt amser!</p>	<p>Rydyn ni'n deall bod ymgysylltu â chyflogwyr yn gallu bod yn heriol, bod gan ganolfannau eu dulliau eu hunain o ymgysylltu a recriwtio prentisiaid ar hyn o bryd a gall y dulliau hyn barhau. Mae Gyrfa Cymru yn rheoli rhestr o gyflogwyr sydd â diddordeb mewn ymgysylltu ag ysgolion a cholegau i ddatblygu rhaglenni cyffrous sy'n gwella'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr. Mae'r Gyfnewidfa Addysg Busnes wedi'i chynllunio i gael ei defnyddio gan athrawon a chynghorwyr gyrfa i ddewis cyflogwyr sy'n gallu cefnogi'r cwricwlwm drwy amrywiaeth o weithgareddau. Cysylltwch â'ch cydlynnydd Gyrfa Cymru lleol i drafod yr hyn y gallant ei wneud i chi</p>
<p>When will the frameworks for these qualifications be released or updated?</p>	<p>The Welsh Government is responsible for publishing apprenticeship frameworks. At present they are using a framework developer to engage with stakeholders in the sector to support the framework development. Government will also carry out a review of the framework to determine its value. A framework is published on the day it 'goes live', however, we are working with government to try and make available a draft of the framework before this date.</p>	<p>Pryd fydd y fframweithiau ar gyfer y cymwysterau hyn yn cael eu rhyddhau neu eu diweddarau?</p>	<p>Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi fframweithiau prentisiaeth. Ar hyn o bryd maent yn defnyddio datblygwr fframwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector i gefnogi datblygiad y fframwaith. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cynnal adolygiad o'r fframwaith i bennu ei werth. Cyhoeddir fframwaith ar y diwrnod y mae'n 'mynd yn fyw', fodd bynnag, rydyn ni'n gweithio gyda'r llywodraeth i geisio sicrhau bod drafft o'r fframwaith ar gael cyn y dyddiad hwn.</p>
<p>Will the evidence provided by the apprentice have to be paper based or can it be provided by e-portfolio?</p>	<p>Initially the documents will be created paperbased for ease of awareness training and implementation. In future we would expect this to be able to</p>	<p>Fydd yn rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei rhoi gan y prentis fod ar bapur neu a ellir ei chyflwyno drwy e-bortffolio?</p>	<p>I ddechrau, bydd y dogfennau'n cael eu creu ar bapur er mwyn hwyluso hyfforddiant ymwybyddiaeth a'u rhoi ar waith. Yn y dyfodol, byddem yn disgwyl i</p>

	transfer to digital methods as an alternative		hyn allu trosglwyddo i ddulliau digidol fel dewis arall
Will the e-portfolio be a City & Guilds or EAL platform?	City & Guilds and EAL have their own respective e-portfolio platforms and we are currently working through the practicalities of how this is co-ordinated. We expect to have further information available in this by late January.	Fydd yr e-bortffolio'n llwyfan City & Guilds neu EAL?	Mae gan City & Guilds ac EAL eu llwyfannau e-bortffolio eu hunain ac ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio drwy'r ystyriaethau ymarferol o ran sut mae hyn yn cael ei gydlynu. Rydyn ni'n disgwyl y bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn hyn o beth erbyn diwedd mis Ionawr.
How will the new qualifications work with the apprentice applying for a CSCS card?	Apprentice will be in a position to apply for a skills card upon successfully completing all of the relevant components. The apprentice will gather evidence from industry to confirm they are occupationally proficient in line with the occupational competency statements. The forms and guidance on the OCS are retained within the employer guide.	Sut bydd y cymwysterau newydd yn gweithio gyda'r prentis yn gwneud cais am gerdyn CSCS?	Bydd y prentis mewn sefyllfa i wneud cais am gerdyn sgiliau ar ôl cwblhau'r holl gydrannau perthnasol yn llwyddiannus. Bydd y prentis yn casglu tystiolaeth gan y diwydiant i gadarnhau eu bod yn alwedigaethol hyfedr yn unol â'r datganiadau cymhwysedd galwedigaethol. Mae'r ffurflenni a'r canllawiau ar y Datganiadau Cymhwysedd Galwedigaethol yn cael eu cadw yn y canllaw i gyflogwyr.
How will the new qualification affect candidates that have "grandfather rights" and need a qualification to gain a CSCS card as there will be no NVQ?	NVQs will still be available for the experienced worker as the CSCS card is a competency card. It is the apprenticeship qualification that will not have a NVQ as this is replaced by the Occupational Competency Standard.	Sut bydd y cymhwyster newydd yn effeithio ar ymgeiswyr sydd â "hawliau taid/tad-cu" ac sydd ag angen cymhwyster i ennill cerdyn CSCS gan na fydd unrhyw NVQ?	Bydd cymwysterau NVQ yn dal ar gael i'r gweithiwr profiadol gan fod cerdyn CSCS yn gerdyn cymhwysedd. Dyma'r cymhwyster prentisiaeth na fydd yn meddu ar NVQ gan ei fod yn cael ei ddisodli gan y Safon Cymhwysedd Galwedigaethol.
When seeking approval would a centre need to be approved for all the subject areas in the qualification or will a centre be able to choose from the optional units. If so is there a minimum amount of optional units a centre	Qualification approval is granted for the full qualification, not for the optional units only	Wrth geisio cymeradwyaeth, fyddai angen i ganolfan gael ei chymeradwyo ar gyfer holl feysydd pwnc y cymhwyster neu a fydd canolfan yn gallu dewis o'r unedau dewisol. Os felly, a oes isafswm o unedau dewisol y mae'n rhaid cymeradwyo canolfan ar eu	Rhoddir cymeradwyaeth cymhwyster ar gyfer y cymhwyster llawn, nid ar gyfer yr unedau dewisol yn unig

must be approved for in order to gain approval.		cyfer er mwyn cael cymeradwyaeth.	
Are any providers concerned that the new quals are not fit for purpose?	Both Awarding Bodies have held various webinars, meetings with employer groups and held a variety of focus groups on the development of the qualifications with employers and providers. Over this period of consultation there have been many constructive discussions on implementing the new qualifications, including the challenges that change brings. Overall the feedback we have had from employers and providers has been positive.	A oes unrhyw ddarparwyr yn poeni nad yw'r cymwysterau newydd yn addas i'r diben?	Mae'r ddau Gorff Dyfarnu wedi cynnal gweminarau a chyfarfodydd gyda grwpiau cyflogwyr ac wedi cynnal amrywiaeth o grwpiau ffocws ar ddatblygu'r cymwysterau gyda chyflogwyr a darparwyr. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, cafwyd llawer o drafodaethau adeiladol ynghylch gweithredu'r cymwysterau newydd, gan gynnwys yr heriau a ddaw yn sgil newid. At ei gilydd, mae'r adborth rydyn ni wedi'i gael gan gyflogwyr a darparwyr wedi bod yn gadarnhaol.
Is the AM2 part of the apprenticeship route	The AM2 is likely to be part of an apprenticeship programme but isn't part of the qualification	A yw'r AM2 yn rhan o'r llwybr prentisiaeth?	Mae'r AM2 yn debygol o fod yn rhan o raglen brentisiaeth ond nid yw'n rhan o'r cymhwyster
When an employer approaches a centre, will the centres have to direct them to the Skills for Wales site to complete the application for their apprentice? Or will centres use their existing enrolment and registration processes?	We do not envisage any changes and therefore centres will still be able to use their existing enrolment and registration processes.	Pan fydd cyflogwr yn dod at ganolfan, a fydd yn rhaid i'r canolfannau eu cyfeirio at safle Sgiliau i Gymru i gwblhau'r cais ar gyfer eu prentis? Neu a fydd canolfannau'n defnyddio eu prosesau cofrestru presennol?	Dydyn ni ddim yn rhagweld unrhyw newidiadau ac felly bydd canolfannau'n dal i allu defnyddio eu prosesau cofrestru presennol.
If a learner is already enrolled on a current Level 2 NVQ Diploma as part of an apprenticeship, will they be able to continue with the current Level 3 suite of NVQ Diplomas to complete the existing Level 3 apprenticeship?	Qualifications Wales is currently working with the BACH Network, City & Guilds and EAL on finalising transitional arrangements to ensure that learner journeys are appropriate and repetition of learning, training and assessment is minimised. These arrangements will be finalised shortly.	Os yw dysgwr eisoes wedi'i gofrestru ar gyfer Diploma NVQ Lefel 2 cyfredol fel rhan o brentisiaeth, a fydd yn gallu parhau â'r gyfres Lefel 3 bresennol o Ddiplomâu NVQ Lefel 3 i gwblhau'r brentisiaeth Lefel 3 bresennol?	Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda'r Rhwydwaith BACH, City & Guilds ac EAL ar gwblhau'r trefniadau pontio i sicrhau bod teithiau dysgwyr yn briodol ac na ailadroddir y dysgu. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu cwblhau cyn bo hir.

<p>Will there be some sort of book/resource giving information on things like Graphene, transparent aluminium, self healing cement and so forth.</p>	<p>The Consortium (City & Guilds and EAL) will be producing extensive tutor resources for the Foundation qualification. Hodder Education will also be producing textbooks for Foundation, as well as the specialisms with the highest take up. This type of information will be included in these resources.</p>	<p>A fydd rhyw fath o lyfr/adnoddau yn rhoi gwybodaeth am bethau fel Graphene, alwminiwm tryloyw, sment hunan-adfer ac ati?</p>	<p>Bydd y Consortiwm (City & Guilds ac EAL) yn cynhyrchu llawer o adnoddau i diwtoriaid ar gyfer y cymhwyster Sylfaen. Bydd Hodder Education hefyd yn cynhyrchu gwerslyfrau ar gyfer y cymhwyster Sylfaen, yn ogystal â'r arbenigeddau mwyaf poblogaidd. Bydd y math hwn o wybodaeth yn cael ei gynnwys yn yr adnoddau hyn.</p>
<p>Which employers were consulted in the North Wales area regarding the new qualification?</p>	<p>Numerous micro, small, medium and large employers have been consulted with across Wales, including the involvement of employers via employer associations and forums. The documentation and videos made available by Qualifications Wales will help give you an insight into the engagement that took place for the sector review . https://www.qualificationswales.org/english/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/construction-and-the-built-environment/ https://www.qualificationswales.org/media/3176/building-the-future.pdf</p>	<p>Pa gyflogwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn ardal Gogledd Cymru ynghylch y cymhwyster newydd?</p>	<p>Ymgynghorwyd â nifer o gyflogwyr micro, bach, canolig a mawr ledled Cymru, gan gynnwys cynnwys cyflogwyr drwy gymdeithasau cyflogwyr a fforymau. Bydd y dogfennau a'r fideos sydd ar gael gan Cymwysterau Cymru yn rhoi cipolwg i chi ar y gwaith o ymgysylltu a ddigwyddodd ar gyfer yr adolygiad sector. https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/adeiladu-ar-amgylchedd-adeiledig/sector-review-consultation-construction-and-the-built-environment/ https://www.qualificationswales.org/media/3176/building-the-future.pdf</p>
<p>We don't have City & Guilds centre approval. If we want to deliver these qualifications, are these the forms we complete, or are there separate centre approval forms?</p>	<p>We are finalising a centre and qualification approval application form which will be added to the Skills For Wales website in January 2021. Any centre seeking approval to offer these qualifications must complete this application form. The one form is to be used for both Awarding Bodies and for all qualifications - centres don't need to</p>	<p>Does gennym ni ddim cymeradwyaeth ar gyfer canolfan City & Guilds. Os ydyn ni eisiau darparu'r cymwysterau hyn, ai dyma'r ffurflenni y byddwn yn eu llenwi, neu a oes ffurflenni cymeradwyo canolfannau ar wahân?</p>	<p>Rydyn ni wrthi'n cwblhau ffurflen gais ar gyfer cymeradwyo canolfannau a chymwysterau a fydd yn cael ei hychwanegu at wefan Sgiliau i Gymru ym mis Ionawr 2021. Rhaid i unrhyw ganolfan sy'n ceisio cymeradwyaeth i gynnig y cymwysterau hyn lenwi'r ffurflen gais hon. Mae'r un ffurflen i'w defnyddio ar gyfer y ddau Gorff Dyfarnu ac ar gyfer pob cymhwyster - does dim angen i</p>

	complete a separate form for each Awarding Body or application.		ganolfannau lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob Corff Dyfarnu na chais.
Restricted direct claims will be in place for how long once the qualification/s are first delivered?	Direct claims status will be restricted for a minimum of two years. This will not prevent centres from claiming certificates when candidates complete their qualification. An EQA will sample the candidate work and recommend whether the certificate can be claimed. How centres claim certificates will be confirmed at a later date.	Am ba hyd fydd hawliadau uniongyrchol cyfyngedig yn eu lle ar ôl i'r cymhwyster/cymwysterau gael eu cyflwyno am y tro cyntaf?	Cyfyngir ar statws hawliadau uniongyrchol am o leiaf ddwy flynedd. Ni fydd hyn yn atal canolfannau rhag hawlio tystysgrifau pan fydd ymgeiswyr yn cwblhau eu cymhwyster. Bydd Sicrhawr Ansawdd Allanol yn samplu gwaith yr ymgeisydd ac yn argymhell a oes modd hawlio'r dystysgrif. Sut bydd tystysgrifau hawlio canolfannau'n cael eu cadarnhau yn nes ymlaen.
Will there be a minimum spend requirement?	The minimum spend threshold will not apply to centres which have approval for these new qualifications.	A fydd angen isafswm gwariant?	Ni fydd y trothwy isafswm gwariant yn berthnasol i ganolfannau sydd â chymeradwyaeth ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.
Will the consortium be looking at contracting associate / consultant EQA's	City & Guilds EQA roles will be advertised on https://careers.cityandguildsgroup.com/associate-vacancies/external-quality-assurers-eqas/ in the coming weeks. You can still register your interest in the meantime by clicking on the 'EQA Registration Page' link and uploading your CV. ***Recruitment for EAL EQAs?***	A fydd y consortiwm yn ystyried contractio Sicrhawyr Ansawdd Allanol / cyswllt ymgynghorol	Bydd rolau City & Guilds a Sicrhau Ansawdd Allanol yn cael eu hysbysebu ar https://careers.cityandguildsgroup.com/associate-vacancies/external-quality-assurers-eqas/ yn yr wythnosau nesaf. Gallwch gofrestru eich diddordeb yn y cyfamser o hyd drwy glicio ar y ddolen 'EQA Registration Page' a llwytho eich CV i fyny. ***Recriwtio ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Allanol EAL?***

Do current centres of City & Guilds or EAL need to seek approval to deliver the new qualifications?	Yes. These are new qualifications and any centres with approval to offer the current qualifications need to submit an application to offer the new suite.	A oes angen i ganolfannau presennol City & Guilds neu EAL geisio cymeradwyaeth i gyflwyno'r cymwysterau newydd?	Oes. Mae'r rhain yn gymwysterau newydd ac mae angen i unrhyw ganolfannau sydd â chymeradwyaeth i gynnig y cymwysterau presennol gyflwyno cais i allu cynnig y gyfres newydd.
What would happen if a centre is not approved for the Foundation qualification? Is there an appeals process?	There isn't an appeals process if centre and / or qualification approval is denied. Centres will receive a copy of the EQA report which will detail why approval has not been granted and outline what actions the centre needs to take before submitting another application. Centres are welcome to submit another application once those actions have been completed.	Beth fyddai'n digwydd pe na bai canolfan yn cael ei chymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Sylfaen? A oes proses apelio?	Nid oes proses apelio os gwrthodir cymeradwyaeth canolfan a / neu gymhwyster. Bydd canolfannau'n cael copi o'r adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol a fydd yn nodi pam na roddwyd cymeradwyaeth ac yn amlinellu pa gamau y mae angen i'r ganolfan eu cymryd cyn cyflwyno cais arall. Mae croeso i ganolfannau gyflwyno cais arall ar ôl i'r camau hynny gael eu cwblhau.
Why isn't an automatic approval granted for Centres currently registered on similar quals?	These are new suites of qualifications and in order to ensure the requirements for them are in place in centres, applications for approval must be submitted	Pam nad yw cymeradwyaeth awtomatig yn cael ei rhoi i Ganolfannau sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar gymwysterau tebyg?	Mae'r rhain yn gyfresi newydd o gymwysterau ac er mwyn sicrhau bod y gofynion ar eu cyfer yn eu lle mewn canolfannau, rhaid cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth.
Will multi site colleges need approval for each campus	This is being considered at the moment, as soon as we know exactly we will share information	A fydd angen cymeradwyaeth colegau aml-safle ar gyfer pob campws	Mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Cyn gynted ag y byddwn yn gwybod yn union, byddwn yn rhannu gwybodaeth
Is there a cost to the Centre for approval?	No, centres will not be charged to become a centre for these qualifications. Nor will qualification approval fees apply	A oes cost i'r Ganolfan am gymeradwyaeth?	Na, ni chodir tâl ar ganolfannau i ddod yn ganolfan ar gyfer y cymwysterau hyn. Ni fydd ffioedd cymeradwyo cymwysterau yn berthnasol chwaith
Will an IQA for the Foundation qualification need to hold a valid IQA award?	The Resources Document and qualification specifications will state if assessor and IQA qualifications are required.	A fydd angen i Sicrhawr Ansawdd Mewnol ar gyfer y cymhwyster Sylfaen feddu ar ddyfarniad sicrhau ansawdd mewnol dilys?	Bydd y Ddogfen Adnoddau a manylbau cymwysterau yn nodi a oes angen cymwysterau asesydd a sicrhawr ansawdd mewnol.

What is going to be the role of the on site assessor ?	There will be changes in the way assessors carry out their roles in line with the changes in assessment methods. Please refer to the resource guide and consider the stages to delivery as an overview of requirements	Beth fydd rôl yr asesydd ar y safle?	Bydd newidiadau yn y ffordd y mae aseswyr yn cyflawni eu rolau yn unol â'r newidiadau mewn dulliau asesu. Cyfeiriwch at y canllaw adnoddau ac ystyriwch y camau i'w cyflwyno fel trosolwg o'r gofynion
Will there be on line exams for each topic of the Progression qualification?	At progression there will be a specific on line M/C examination for each trade area.	A fydd arholiadau ar-lein ar gyfer pob pwnc yn y cymhwyster Cynnydd?	Wrth symud ymlaen, bydd arholiad M/C penodol ar-lein ar gyfer pob maes crefft.
Will there be a final online exam covering all topics like GOLA did?	There will be a specific on line M/C examination for each trade area in the final year of the apprenticeship.	A fydd arholiad ar-lein terfynol yn ymdrin â phob pwnc fel wnaeth GOLA?	Bydd arholiad M/C penodol ar-lein ar gyfer pob maes crefft ym mlwyddyn olaf y brentisiaeth.
Will we have 2 EQA's, one for EAL and one for C&G?	If centres have approval for qualifications offered by both awarding bodies, then it is likely there will be two separate EQAs	A fydd gennym ni 2 Sicrhawr Ansawdd Allanol, un ar gyfer EAL ac un ar gyfer City & Guilds?	Os bydd canolfannau'n cael cymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau a gynigir gan y ddau gorff dyfarnu, mae'n debygol y bydd dau gymhwyster Sicrhau Ansawdd Allanol ar wahân.
Will literacy & numeracy development still form part of the FE funding framework for the new qualifications?	Literacy and numeracy do not form a distinct part of these qualifications, however it is expected that this will remain in the framework in the form of essential skills. The Welsh Government are still reviewing this content and will release details some time in 2021.	A fydd datblygu llythrennedd a rhifedd yn dal i fod yn rhan o'r fframwaith cyllido AB ar gyfer y cymwysterau newydd?	Nid yw llythrennedd a rhifedd yn rhan benodol o'r cymwysterau hyn, ond disgwylir y bydd hyn yn aros yn y fframwaith ar ffurf sgiliau hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i adolygu'r cynnwys hwn a bydd yn rhyddhau manylion rywbryd yn 2021.
Step two of the provider/employer delivery guide appears to entail a lot of co-ordination hours for the Centres, has this been considered?	Coordination between employer and training provider will take place to identify the activities that have to be carried out in line with the OCS and the work based project. By working collaboratively together will help enhance the apprentice journey and we have no doubt this is already occurring within many training providers.	Ymddengys bod cam dau y canllaw cyflenwi darparwyr/cyflogwyr yn golygu llawer o oriau cydlynu ar gyfer y Canolfannau. A yw hyn wedi cael ei ystyried?	Bydd y cyflogwr a'r darparwr hyfforddiant yn cydweithio i nodi'r gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni yn unol â'r Datganiadau Cymhwysedd Galwedigaethol a'r prosiect seiliedig ar waith. Drwy gydweithio, bydd hyn yn helpu i wella taith y prentis ac rydyn ni'n siŵr bod hyn eisoes yn digwydd gyda llawer o ddarparwyr hyfforddiant.

<p>For the Level 3 Apprenticeship qualifications, it appears a lot of co-ordination is required by the providers when organising assessments. This could have a financial burden on the Centres, has this been considered?</p>	<p>Planning and coordination of current on site assessments take a considerable amount of time and cost. The new model will be very similar to current model regarding coordination and costs that will occur.</p>	<p>Ar gyfer cymwysterau Prentisiaeth Lefel 3, mae'n ymddangos bod angen llawer o gydlynau ar y darparwyr wrth drefnu asesiadau. Gallai hyn roi baich ariannol ar y Canolfannau. A yw hyn wedi cael ei ystyried?</p>	<p>Mae cynllunio a chydlynau asesiadau cyfredol ar y safle yn cymryd cryn dipyn o amser a chost. Bydd y model newydd yn debyg iawn i'r model presennol o ran cydlynau a chostau a fydd yn digwydd.</p>
<p>Level 3 Apprenticeships is there an opportunity to step off and rejoin at a later date? What will happen if they don't come back and would like to go into construction?</p>	<p>There will be two and three year apprenticeships with a level 3 outcome. An apprentice who leaves part way through their course can rejoin at a later date as they can at present. Depending on the time that will have lapsed the apprentice would be interviewed and guidance provided to support the individual as currently happens.</p>	<p>Ar gyfer Prentisiaethau Lefel 3 - a oes cyfle i adael ac ailymuno'n nes ymlaen? Beth fydd yn digwydd os na fyddan nhw'n dod yn ôl ac yr hofffen nhw fynd i'r maes adeiladu?</p>	<p>Bydd dwy a thair blynedd o brentisiaethau gyda chanlyniad lefel 3. Gall prentis sy'n gadael rhan o'i ffordd drwy ei gwrs ailymuno yn nes ymlaen fel y gall ar hyn o bryd. Gan ddibynnu ar yr amser fydd wedi mynd heibio, byddai'r prentis yn cael ei gyfweld a byddai arweiniad yn cael ei roi i gefnogi'r unigolyn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.</p>
<p>Will there be any RPL from 7202, 6035 and 6189-11?</p>	<p>7202 being Level 1 is unlikely to exempt learners from any Level 2 assessment although the prior learning will be valuable to enable learners to build on previous learning. The 6035/6189 is unit based so it wouldn't be as easy to apply exemption but Awarding Bodies and Qualifications Wales are working through suitable entry points for learners which would take into account prior learning and assessment, more details will be made available on this in our Spring webinar series.</p>	<p>A fydd unrhyw Gydabod Dysgu Blaenorol o gymwysterau 7202, 6035 a 6189-11?</p>	<p>Oherwydd mai Lefel 1 yw 7202, bydd yn annhebygol o eithrio dysgwyr o unrhyw asesiad Lefel 2, er y bydd y dysgu blaenorol yn werthfawr i alluogi dysgwyr i adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae cymhwyster 6035/6189 wedi'i seilio ar uned felly ni fyddai mor hawdd gwneud cais am eithriad, ond mae Cyrff Dyfarnu a Chymwysterau Cymru yn gweithio drwy bwyntiau mynediad addas ar gyfer dysgwyr a fyddai'n ystyried dysgu ac asesu blaenorol. Bydd rhagor o fanylion ar gael am hyn yng nghyfres gweminar y Gwanwyn.</p>
<p>What are the latest plans regarding the pre-foundation course for building services?</p>	<p>We are working on a potential combined BSE 7202 qualification as a pre foundation. We will communicate to centres once we have more news on this.</p>	<p>Beth yw'r cynlluniau diweddaraf ynghylch y cwrs cyn-sylfaen ar gyfer gwasanaethau adeiladu?</p>	<p>Rydyn ni'n gweithio ar gymhwyster BSE 7202 cyfun posibl fel cwrs cyn-sylfaen. Byddwn yn cyfathrebu â chanolfannau ar ôl i ni gael rhagor o newyddion am hyn.</p>

Can you confirm the final funded date for registration on the current 2365/6724 qualifications?	This is being considered at the moment, as soon as we know exactly we will share information	Allwch chi gadarnhau'r dyddiad ariannu olaf ar gyfer cofrestru ar y cymwysterau 2365/6724 cyfredol?	Mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Cyn gynted ag y byddwn yn gwybod yn union, byddwn yn rhannu gwybodaeth
As employer competence pathways and projects become an integral part of the assessment strategy, are there plans to embed a standard evidence profile of the employer evidence opportunity's as a minimum requirement prior to partnering with the site ?	We will be producing guidance which will be available in the spring.	Wrth i lwybrau a phrosiectau cymhwysedd cyflogwyr ddod yn rhan annatod o'r strategaeth asesu, a oes cynlluniau i sefydlu proffil tystiolaeth safonol o gyfleoedd tystiolaeth y cyflogwr fel gofyniad sylfaenol cyn ffurfio partneriaeth â'r safle?	Byddwn yn cynhyrchu canllawiau a fydd ar gael yn y gwanwyn.
What will the role of the OSAT assessor be and within the new apprenticeship?.	NVQs are not part of the new apprenticeship structure they are however still available for the experienced worker through the OSAT route. The apprenticeship model commencing September 2021 will have a work based project that will be formally assessed by a competent assessor.	Beth fydd rôl yr asesydd OSAT ac o fewn y brentisiaeth newydd?	Nid yw cymwysterau NVQ yn rhan o'r strwythur prentisiaeth newydd. Fodd bynnag, maen nhw ar gael o hyd i'r gweithiwr profiadol drwy'r llwybr OSAT. Bydd gan y model prentisiaeth sy'n dechrau ym mis Medi 2021 brosiect seiliedig ar waith a fydd yn cael ei asesu'n ffurfiol gan asesydd cymwys.
How will the learners get an employer?	These new qualifications there will be no change to how learners secure an employer.	Sut bydd y dysgwyr yn cael cyflogwr?	Ni fydd y cymwysterau newydd hyn yn newid y ffordd y bydd dysgwyr yn sicrhau cyflogwr.